# Polisi Dyrannu Tai Hygyrch

**Mae'r Polisi Dyrannu Cyffredin yn berthnasol i bawb sydd eisiau gwneud cais am dai cymdeithasol.**

**Darllenwch y Polisi Dyrannu Cyffredin cyn darllen y polisi hwn.**

**Mae hwn yn bolisi ychwanegol sy'n cynnwys pobl sydd angen eiddo hygyrch.**

## Gwybodaeth i bobl sydd eisiau gwneud cais am dai cymdeithasol hygyrch

Mae tai hygyrch wedi'u cynllunio i fod yn hawdd i bobl anabl symud o gwmpas ynddyn nhw a byw ynddyn nhw.

Mae'n rhaid i **bawb** sydd eisiau tai cymdeithasol wneud cais i'r Gofrestr Tai Cyffredin. Mae'r Polisi Dyrannu Cyffredin yn egluro'r rheolau ar gyfer gwneud cais i'r Gofrestr hon a sut y bydd eiddo sydd ar gael yn cael eu dyrannu.

Yna gall pobl sydd angen tai hygyrch wneud cais i'r Gofrestr Tai Hygyrch.

Gall pobl sydd angen cymorth i fyw'n annibynnol fynd ar y gofrestr hon dim ond os oes angen eiddo wedi'i addasu neu eiddo hygyrch arnyn nhw hefyd.

Gall y person sydd angen cartref wedi'i addasu neu gartref hygyrch fod yn blentyn neu'n oedolyn.

Gall pobl sydd angen tai hygyrch hefyd wneud cais i:

- y Gofrestr Tai Fforddiadwy.
- y Gofrestr Pobl Hŷn Dynodedig, os ydynt yn 55 oed neu'n hŷn.

## Sut wnaethon ni benderfynu beth i'w roi yn y polisi hwn

Dyma'r pethau y gwnaethon ni feddwl amdanyn nhw pan ysgrifennon ni'r polisi hwn:

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'r Ddeddf yn dweud:
    - mae'n rhaid i ni drin pobl yn deg.
    - mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr y gall pobl anabl ddefnyddio ein gwasanaethau. Gallai hyn feddwl bod angen i ni wneud pethau'n wahanol i bobl anabl.
    - mae'n rhaid i ni gymryd camau fel bod pobl anabl a gweddill y gymuned yn cael cyfle cyfartal mewn bywyd ac yn gallu dod ymlaen gyda'n gilydd

- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau**. Mae hwn yn dweud bod gan bobl anabl yr hawl i fyw yn annibynnol a bod yn rhan o'r gymuned.

- y **Model Cymdeithasol o Anabledd**. Mae hwn yn dweud bod pobl yn cael eu hanablu oherwydd y ffordd y mae cymdeithas yn gwneud pethau. Gall tai fod yn rhwystr sy'n anablu. Bydd y polisi hwn yn helpu i gael gwared ar y rhwystr. Rydyn ni am i dai cymdeithasol gefnogi pobl anabl i gael yr un math o ddewisiadau tai â phawb arall.

- **Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Byw'n Annibynnol**. Mae hwn yn dweud y dylai plant ac oedolion anabl yng Nghymru fwynhau yr hawl i fyw'n annibynnol a bod yn rhan o'u cymuned.

- **Ceredigion i Bawb: Cynllun Integredig Sengl 2013-17**. Mae'r cynllun hwn yn dweud y gall pobl yng Ngheredigion:
    - fyw mewn cartrefi a chymunedau diogel a fforddiadwy.
    - byw bywydau llawn.

- **Tai i Bawb: Strategaeth Dai Leol ar gyfer Ceredigion**. Mae hwn yn dweud ein bod ni am gael y gwasanaethau a'r tai iawn ar draws Ceredigion fel y gall pobl fyw yn annibynnol.

## Beth rydyn ni am i'r polisi gyflawni

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr y gall pobl anabl gael tai hygyrch.

Mae ein polisi hefyd yn helpu i gyflawni nodau ein Polisi Dyrannu Cyffredin. Rydyn ni am:

- ddefnyddio tai cymdeithasol i wneud cymunedau yn gryfach.
- gwneud yn siŵr bod eiddo yn mynd i'r bobl sydd angen ein cymorth fwyaf.
- gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod ble maen nhw'n sefyll.

### Defnyddio tai cymdeithasol i wneud cymunedau yn gryfach

Bydd ein polisi Dyrannu Tai Hygyrch yn gwneud cymunedau'n gryfach trwy:

- wneud yn siŵr bod pobl sy'n byw yng Ngheredigion neu'n agos iawn ati yn fwy tebygol o gael tai.
- helpu pobl i aros yn annibynnol ac yn rhan o'u cymuned drwy eu helpu i aros yn agos at eu rhwydweithiau cymorth.
- helpu pobl anabl i symud i mewn i'r ardal os ydyn nhw'n symud i ddechrau swydd.

### Gwneud yn siŵr bod cartrefi yn mynd i'r bobl sydd angen ein cymorth fwyaf

Mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n helpu'r bobl sydd angen ein cymorth fwyaf. Byddwn ni'n:

- gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio'r rheolau yn Neddf Tai (Cymru) 2014.
- gwneud beth allwn ni i ddatrys problemau gyda thai rhent preifat o ansawdd gwael.
- gweithio gyda darparwyr tai i wneud yn siŵr bod pobl dim ond yn byw mewn tai hygyrch neu dai â chymorth os oes angen y tai hynny arnyn nhw.

## Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod ble maen nhw'n yn sefyll

Rydyn ni am i bobl wybod ble maen nhw'n sefyll gyda ni. Rydyn ni am iddyn nhw wybod:

- os ydyn nhw'n debygol o gael tai cymdeithasol hygyrch.
- pa mor hir y bydd yn rhaid iddyn nhw aros.
- sut byddwn ni'n penderfynu pwy sy'n cael cynnig eiddo sydd ar gael.
- beth rydyn ni'n disgwyl ganddyn nhw, er enghraifft, sut rydym yn disgwyl iddyn nhw ymddwyn.

Byddwn ni:

- yn defnyddio system bandiau, nid system pwyntiau.
- yn cymryd i ystyriaeth pa mor hir y mae rhywun wedi bod yn aros, ond hefyd yn gwneud yn siŵr bod pobl ag angen brys yn gallu cael ein help.
- yn peidio â gosod cartref i unrhyw un sy'n ymddwyn yn wael drwy'r amser.

# Cais i'r Cofrestrau

**Rydyn ni'n defnyddio bandiau i'n helpu ni i ddyrannu cartrefi.**

**Darllenwch y Polisi Dyrannu Cyffredin i gael gwybod am y system bandiau. Mae ein system bandiau yn edrych ar eich:**

- **angen am dai**
- **cysylltiad lleol**

**Mae gennym ni hefyd Fand F ar gyfer pobl sy'n aros i gael eu rhoi mewn band arall. Er enghraifft, gallen nhw fod mewn ôl-ddyledion rhent, neu efallai ein bod ni'n aros i weld os bydd eu landlord preifat yn gwneud eu cartref presennol yn ddiogel ac yn addas i fyw ynddo.**

Pan fyddwch chi'n gwneud cais i'r Gofrestr Tai Cyffredin, byddwn ni'n dweud wrthych chi ym mha fand ydych chi.

Pan fyddwch chi'n gwneud cais i'r Gofrestr Tai Hygyrch, bydd gweithiwr proffesiynol yn edrych ar eich cais fel y gallwn ni roi categori tai hygyrch i chi. Gallan nhw hefyd roi cyngor a help i chi wrth i chi aros am gartref hygyrch.

Y categorïau gwahanol o dai hygyrch yw:

- Cadair Olwyn Llawn - mae hyn yn golygu bod angen cartref wedi'i addasu yn llawn arnoch chi.
- Cadair Olwyn Rhannol - mae hyn yn golygu bod angen cartref sy'n bodloni rhai o'r safonau hygyrchedd i gadeiriau olwyn arnoch chi.
- Cartrefi am oes – mae hyn yn golygu bod angen cartref sy'n bodloni'r safonau Cartrefi Gydol Oes arnoch chi. Mae'r rhain yn safonau tai ar gyfer cartrefi sy'n hawdd i bobl fyw ynddyn nhw wrth fynd yn hŷn, neu fynd yn anabl.
- Dim grisiau - mae hyn yn golygu bod angen cartref heb unrhyw risiau arnoch chi.
- Uchafswm o 3 cham - mae hyn yn golygu bod angen cartref gyda dim mwy na 3 cam ar y tro arnoch chi.
- Addasiad penodol - mae hyn yn golygu bod angen rhywbeth penodol wedi'i wneud i'ch cartref er mwyn i chi allu symud o gwmpas a byw yno.

Mae'r Polisi Dyrannu Cyffredin yn gadael i bobl sy'n ymuno â'r Gofrestr i ddewis 3 ardal lle maen nhw am fyw.

Mae'r Polisi Dyrannu Tai Hygyrch yn gadael i bobl sy'n ymuno â'r Gofrestr i ddewis hyd at 10 ardal. Mae hyn oherwydd nad oes cymaint o gartrefi hygyrch.

Mae angen i rai pobl anabl fyw mewn ardal benodol. Er enghraifft, mewn ardal lle mae eu rhwydwaith cymorth. Mae hyn yn golygu bod llai o siawns y byddan nhw'n cael cynnig cartref hygyrch. I wneud iawn am hyn, byddwn ni'n eu trin nhw fel pe baent wedi bod yn aros 6 mis yn hirach nag y maen nhw wedi bod yn aros mewn gwirionedd.

## Dyrannu tai i bobl ar y Gofrestr Tai Hygyrch

Pan fydd eiddo ar gael, bydd y Tîm Cofrestrau Tai yn ei ddyrannu i Fand A, Band B neu Fand C.

Byddwn ni'n edrych ar y Gofrestr Tai Hygyrch ar gyfer pobl:

- sydd yn y band hwnnw.
- sydd angen y categori hwnnw o dai hygyrch.

Byddwn ni'n cymryd i ystyriaeth:

- pa mor hir y mae person wedi bod ar y Gofrestr Tai Cyffredin.
- pa mor hir y mae person wedi bod ar y Gofrestr Tai Hygyrch.
- a oes angen i berson fyw mewn un ardal benodol.

## A yw'r polisi hwn yn gweithio?

Bob 3 mis, byddwn ni'n gwirio bod y polisi hwn yn gweithio.